Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Coed Cariad**

**Blaen y Wern**
**Cydweli**
**SA17 5ES**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Coed Cariad

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | ADDYSG AMGYLCHEDDOL GWENDRAETH |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru yw hwn |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn teimlo'n agos at y staff ac yn mynd atynt yn hyderus i gael cysur a chymorth. Mae gan y plant lais cryf, ac maent yn teimlo'n hyderus yn dweud wrth y staff beth yr hoffent ei wneud. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn mwynhau eu profiadau chwarae ac archwilio y tu mewn a'r tu allan. Mae sgiliau annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda.

Mae'r staff yn datblygu llawer o bolisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a gweithgareddau corfforol i'r plant ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn ymgysylltu â diddordebau'r plant ac yn ymateb yn briodol i'w hanghenion. Mae'r staff yn brofiadol ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant. Maent yn hyrwyddo ac yn annog y plant i archwilio, i fod yn chwilfrydig ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol mewn amgylchedd coedwig.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth briodol o adnoddau ar gael ar gyfer oedrannau ac anghenion datblygiadol yr holl blant. Mae ganddynt fesurau digonol ar waith i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Fodd bynnag, gwneir argymhellion er mwyn datblygu diogelwch yr amgylchedd ymhellach. Mae'r lleoliad mewn ardal goetir naturiol ac mae digon o le chwarae i'r plant chwarae, dysgu ac archwilio.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth ddigonol o'r gofynion rheoleiddio. Mae ganddynt weledigaeth dda ar gyfer dyfodol y lleoliad. Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas â recriwtio staff, darparu gwybodaeth ac arfarnu staff, a gaiff eu profi yn ystod arolygiad nesaf y lleoliad. Mae'r partneriaethau yn dda.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn teimlo'n hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn teimlo'n agos at y staff ac yn mynd atynt yn hyderus am gysur a chymorth yn ystod cyfnodau chwarae rhydd. Mae'r plant yn dangos lefel dda o hunan-barch ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau. Roeddent yn gwenu wrth iddynt edmygu eu model mawr o gastell a wnaed gan ddefnyddio blociau pren. Mae'r plant yn gwenu pan fydd y staff yn eu canmol am adeiladu tŵr uchel ac yn teimlo bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi pan fyddant yn glanhau ar eu holau.

Mae gan y plant lais cryf. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus y gallant gychwyn eu chwarae eu hunain. Maent yn dewis beth i'w chwarae yn unol â'u diddordebau, sy'n cynnwys chwarae yn yr awyr agored, adeiladu a phrofiadau crefft. Mae'r staff yn gwrando ar syniadau'r plant ac yn gweithredu arnynt. Maent yn cynnal cyfarfodydd cynllunio sy'n cynnwys syniadau'r plant fel gweithgareddau Calan Gaeaf. Mae'r plant yn mynegi eu teimladau'n hyderus. Maent yn dewis ble yr hoffent eistedd ar gyfer prydau a chaiff dewisiadau'r rheini nad ydynt yn barod i fwyta gydag eraill eu parchu a chânt fwyta ar wahân.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r staff; gan drafod teithiau teuluol a'u profiadau chwarae adeiladu â'r staff. Mae'r plant yn cydweithio'n dda. Maent yn fwy na pharod i rannu eu hadnoddau adeiladu ac i rannu syniadau â'u cyfoedion. Er enghraifft, dywedodd y plant wrth ei gilydd *“Look at this! This is a base! This could be a home; they have homes like these in America with palm trees!”* Mae'r plant yn dod at y staff yn hyderus i ofyn am gymorth pan fydd plant eraill yn angharedig wrthynt. Mae'r plant yn gwrando ar y staff sy'n eu hannog i fod yn garedig.

Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau chwarae ac archwilio y tu mewn a'r tu allan. Maent yn mwynhau eu gweithgaredd paentio yn fawr iawn ac yn esbonio eu bod wedi dod o hyd i glai o'r tu allan. Maent yn gwneud eu modelau clai eu hunain o ddraenogod, potiau a wynebau, ac yn mynd ati'n falch i baentio eu cynhyrchion gorffenedig. Mae'r plant yn mwynhau eu hamser archwilio rhydd yn yr ardaloedd coetir. Maent yn mwynhau siglo ar y siglenni coed yn yr awyr agored ac mae'r plant iau yn mwynhau creu ffrydiau bach gan ddefnyddio dŵr a cherrig. Yn y gorffennol, gwnaethant risiau ar gyfer y llethrau yn yr ardal goetir. Mae'r plant yn ymgysylltu â'u gweithgareddau dysgu. Maent yn gwrando'n astud yn ystod amser stori ac yn ail-greu'r straeon yn annibynnol gan ddefnyddio adnoddau naturiol, hydrefol a theganau anifeiliaid gan ddangos brwdfrydedd. Maent yn defnyddio geirfa a phatrymau brawddegau da.

Mae sgiliau annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando ar y staff sy'n eu hannog i olchi eu dwylo cyn cinio ac yn helpu eu hunain i fyrbryd ar unrhyw adeg yn ystod y dydd. Mae'r plant yn defnyddio pensiliau ac adnoddau crefft yn annibynnol, yn ogystal ag adnoddau chwarae awyr agored wrth iddynt chwarae â'r dŵr a'r gegin fwd. Mae'r plant yn hyderus wrth wneud dewisiadau y tu mewn a'r tu allan ac yn defnyddio'r holl adnoddau chwarae diogel yn annibynnol.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae'r staff yn datblygu llawer o bolisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a gweithgareddau corfforol i'r plant ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn cinio. Fodd bynnag, gall y plant fynd at eu blychau cinio ar unrhyw adeg, ac ni chânt eu hannog i olchi eu dwylo ar ôl chwarae tu allan. Mae'r staff yn sicrhau bod y byrddau wedi'u diheintio cyn cinio. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion meddygol y plant ac yn cadw cofnodion o ofynion meddyginiaeth y plant. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant hylendid bwyd a'r hyfforddiant diogelu ac yn meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn plant. Gwnaethant ymateb yn hyderus i senarios amddiffyn plant posibl a'r gweithdrefnau y byddai angen iddynt eu dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am lesiant y plant dan eu gofal. Mae'r staff yn cofnodi digwyddiadau a damweiniau ac yn sicrhau bod llofnod aelod o'r staff ar unrhyw gofnodion a llofnod rhiant yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, nid oes llofnod i'w weld gan riant bob tro, ac ni chaiff anafiadau blaenorol y plant eu cofnodi. Mae'r rhieni yn darparu bwyd a diodydd iach ar gyfer prydau'r plant.

Mae'r staff yn ymgysylltu â diddordebau'r plant ac yn ymateb yn briodol i'w hanghenion. Maent yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol, barchus a charedig pan fydd y plant yn sâl. Mae'r staff yn ymateb yn sensitif pan fydd y plant yn eu cofleidio. Maent yn fodelau rôl da gan eu bod yn annog y plant i fod yn gwrtais, gan ddangos moesau da tuag at y plant a diolch iddynt am dacluso eu teganau a'u hadnoddau. Mae'r staff yn datblygu hunan-barch y plant yn dda. Maent yn canmol y plant am greu tŵr uchel gan ddweud *“Wow! That tower is amazing!!”* Mae'r staff yn annog y plant i fod yn garedig pan geir ymddygiad annymunol ac yn gyfarwydd ag anghenion y plant.

Mae'r staff yn brofiadol ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant. Maent yn llunio adroddiadau cynnydd sy'n dangos cynnydd y plant a'u camau nesaf ym mhob un o feysydd y cwricwlwm ac yn pennu targedau addas iddynt o'u hasesiad llinell sylfaen i'w deilliannau dysgu unigol. Maent yn annog datblygiad iaith y plant drwy gyfleoedd chwarae byd bach, amser stori a thrwy ddarllen straeon i'r plant ar gais. Mae'r staff yn gweithredu amgylchedd dysgu dewis rhydd ar y cyfan lle gall y plant ddilyn eu diddordebau. Maent yn hyrwyddo ac yn annog y plant i archwilio, i fod yn chwilfrydig ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol mewn amgylchedd coedwig. Maent yn llwyddo i greu nifer o weithgareddau a chyfleoedd addas i'r plant ddatblygu eu chwilfrydedd, eu sgiliau creadigol a'u sgiliau annibyniaeth. Maent yn hyrwyddo gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth gan gynnwys y dimensiwn Cymreig. Mae rhai o'r staff yn annog y Gymraeg drwy ryngweithio â'r plant gan ddefnyddio'r iaith, ac felly caiff eu dewisiadau iaith eu parchu.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau digonol ar waith i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan. Mae giât fynedfa i'r lleoliad sydd ar gau bob amser ac mae'r ffin yn ffin gaeedig o ganlyniad i dwf naturiol y goedwig. Mae cysgodfa groeso'r lleoliad bob amser ar agor er mwyn sicrhau y gellir chwarae dan do ac yn yr awyr agored ar unrhyw adeg. Cadarnhaodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bod yr ardal hon yn cael ei glanhau bob dydd. Ceir cofnod o'r bobl sy'n ymweld â'r lleoliad, ond nid oes unrhyw gofnod o'r rhieni a'r gwirfoddolwyr sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion o ymarferion tân rheolaidd. Mae asesiadau risg ar waith a gaiff eu gweithredu. Caiff asesiadau risg dyddiol eu cynnal bob bore er mwyn sicrhau diogelwch amgylcheddol. Fodd bynnag, mae angen rhoi gweithdrefnau asesu risg ychwanegol ar waith ar gyfer yr ardaloedd lle ceir pyllau bas er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pecynnau cymorth cyntaf llawn ar gael yn hawdd i'r staff yn yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored ac y caiff unrhyw sylweddau peryglus eu cadw allan o gyrraedd y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod blychau iâ ym mhecynnau bwyd y plant yn ystod yr haf a bod bwydydd yn cael eu dewis yn ofalus, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w bwyta heb iddynt gael eu cadw mewn oergell. Yn ystod yr arolygiad, dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrth Arolygiaeth Gofal Cymru nad oedd y tŷ crwn ym mhrif ardal y goedwig yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Roedd yr unigolion sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n addas ar yr iard, yn y gysgodfa groeso ac ym mhrif ardaloedd y goedwig. Fodd bynnag, nid oedd yr unigolion hynny sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod pob ardal awyr agored a oedd allan o'r golwg wedi'i goruchwylio gan y staff.

Mae'r lleoliad mewn ardal goetir naturiol ac mae digon o le chwarae i'r plant chwarae, dysgu ac archwilio. Mae'r gofod chwarae awyr agored yn cynnwys ardal lle gall y plant a'r oedolion ddefnyddio toiled sy'n compostio. Darperir dŵr a sebon hylifol er mwyn diheintio. Mae'r unigolion sy'n rhedeg y lleoliad yn annog y plant i ddod â thywelion ar wahân o'u cartrefi er mwyn sychu eu dwylo. Caiff preifatrwydd ac urddas y plant eu parchu bob amser. Mae cyfleuster dŵr yfed naturiol y tu allan ond ar hyn o bryd ni chynhelir profion bacteria ar y cyfleuster hwnnw. Mae'r gysgodfa groeso yn cynnig gofod sych lle gall y plant fwyta, gorffwys ac ymlacio ar glustogau meddal. Mae byrddau er mwyn iddynt fwyta a mwynhau amrywiaeth o weithgareddau crefft a gweithgareddau creadigol. Mae coeden garedigrwydd wedi'i harddangos y tu mewn i'r adeilad, sy'n dathlu galluoedd a charedigrwydd y plant, gan roi ymdeimlad da o berthyn i'r plant a hyrwyddo eu hunan-barch. Mae'r sylwadau hyn yn cynnwys '*He shared with us*' a '*She was very kind sharing her bike*.' Mae giard addas o amgylch y llosgydd boncyffion a chaiff gwiriadau cynnal a chadw eu cwblhau mewn modd amserol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth briodol o adnoddau ar gael ar gyfer oedrannau ac anghenion datblygiadol y plant. Mae'r adnoddau yn y gysgodfa groeso

dan do yn cynnwys amrywiaeth o deganau adeiladu, chwarae byd bach, llyfrau darllen a dewis da o adnoddau sy'n gwella sgiliau creadigrwydd y plant, sy'n cynnwys adnoddau naturiol y cafwyd hyd iddynt yn yr ardaloedd awyr agored ac adnoddau chwyddhau er mwyn archwilio a bodloni chwilfrydedd. Ceir cyfoeth o gyfleoedd yn yr ardaloedd awyr agored i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol, eu sgiliau annibyniaeth a'u sgiliau archwilio. Mae amrywiaeth o rannau rhydd, potiau go iawn, sosbenni, adnoddau palu a phlannu lle mae'r plant wedi tyfu llysiau, ffrwythau a pherlysiau. Caiff yr adnoddau eu glanhau'n ddigonol unwaith yr wythnos. Nid oes unrhyw eitemau miniog ar gael yn hwylus i'r plant dorri a llifio; dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn cael eu cadw allan o afael y plant ac mai dim ond o dan oruchwyliaeth y staff y byddent yn cael eu defnyddio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Digonol**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ddatganiad o ddiben priodol a gafodd ei ddiweddaru yn ystod yr arolygiad er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r lleoliad. Mae gan yr unigolion sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth dda ar ei gyfer ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff a grŵp craidd o wirfoddolwyr. Diweddarwyd polisïau, gweithdrefnau a chynllun gweithredol y lleoliad yn ystod yr arolygiad er mwyn adlewyrchu'r trefniadau staffio cyfredol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion mewn perthynas â chontractau, caniatadau ac anghenion unigol y plant. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwella eu cofnodion presenoldeb yn ystod yr arolygiad er mwyn dangos amseroedd manwl a dyddiadau lle mae'r staff a'r plant yn bresennol yn y lleoliad. Felly, mae'r holl gofnodion presenoldeb bellach yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Cafodd y cymarebau staff i blant eu bodloni yn ystod arolygiad y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli eu staff yn briodol o ddydd i ddydd. Mae'r unigolion sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau mewn perthynas â gofalu am y plant. Maent yn cwblhau cyfnod sefydlu lle bydd y staff yn darllen pob polisi a gweithdrefn sy'n ymwneud â'r lleoliad. Mae'r staff yn hapus iawn yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth lawn i ymgymryd â hyfforddiant a chael arweiniad gan yr unigolion sy'n rhedeg y lleoliad. Ceir ethos gwaith cadarnhaol da rhwng y staff a'r unigolion sy'n rhedeg y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymarferwyr gofal plant profiadol sy'n meddu ar gymwysterau llawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio llafar, ond nid ydynt yn sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau blynyddol sy'n faes i'w wella i'r lleoliad. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn arolygiad nesaf y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal gwiriadau recriwtio ar gyfer rhai aelodau o'r staff ac mae pob gwiriad datgelu a gwahardd wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, nid oedd yr unigolion sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod pob gwiriad recriwtio wedi'i gwblhau ar gyfer y staff gan nad oedd geirdaon, hanes cyflogaeth, datganiad iechyd meddygol a disgrifiadau swydd wedi'u cwblhau cyn eu cyflogi. Mae hwn yn faes i'w wella i'r lleoliad. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn arolygiad nesaf y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS). Maent wedi cwblhau'r adroddiad ansawdd y gofal ar gyfer y lleoliad ac maent yn cynnwys safbwyntiau'r plant, y rhieni, y staff a gwirfoddolwyr yn eu hadroddiad er mwyn gwella targedau'r lleoliad ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am newidiadau i'r lleoliad. Fodd bynnag, nid ydynt wedi hysbysu AGC am ddigwyddiad o bwys. Mae hwn yn faes i'w wella i'r lleoliad. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn arolygiad nesaf y lleoliad.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn teimlo bod eu plant yn hapus ac mae pob rhiant, fwy neu lai, yn teimlo bod profiadau eu plant yn lleoliad Coed Cariad yn werthfawr ac yn meithrin eu hyder er mwyn i'w plant gymdeithasu, archwilio, arbrofi a chwarae mewn amgylchedd naturiol a diogel.  Roedd nifer bach o'r rhieni o'r farn bod problemau cymdeithasol yn codi pan nad oedd y staff yn arsylwi ar y plant. Yn gyffredinol, mae'r rhieni o'r farn bod y staff yn graff a bod yr awyrgylch yn gynnes ac yn ofalgar. Mae'r partneriaethau â chysylltiadau cymunedol lleol a grŵp craidd Coed Cariad yn gadarn. Maent yn sicrhau y caiff y gymuned leol ei chynnwys wrth ddatblygu prosiectau ar gyfer yr ardaloedd coetir ac maent yn ymweld â'r Gerddi Botaneg yn rheolaidd. Mae'r unigolion sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu â'r rhieni ar lafar bob dydd. Maent yn anfon negeseuon ac yn rhannu lluniau â'r rhieni drwy we-ffurflen ar y cyfryngau cymdeithasol ac mae eu polisïau a'u gweithdrefnau i'w gweld ar eu gwefan.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Sicrhau bod cofnodion o anafiadau blaenorol y plant ac y ceir llofnod rhiant ar gyfer damweiniau a digwyddiadau

A2. Sicrhau bod y staff yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta bob amser ac y caiff y dŵr yfed ei brofi ar gyfer unrhyw facteria posibl.

A3. Sicrhau bod cofnod clir o bawb sy'n ymweld â'r lleoliad

A4. Sicrhau bod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r staff er mwyn sicrhau bod aelod o'r staff yn goruchwylio pob gofod chwarae yn yr awyr agored.

A5. Sicrhau y caiff asesiadau risg pellach eu cynnal ar gyfer ardaloedd lle ceir pyllau a ffrydiau ac y caiff mesurau eu rhoi ar waith i sicrhau bod y plant bob amser yn ddiogel.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid oedd yr Unigolyn Cyfrifol wedi hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiad o bwys yn y lleoliad. | Newydd |
| 28 | Nid yw'r unigolyn cofrestredig wedi sicrhau y caiff pob gwiriad addasrwydd ei gynnal ar rai aelodau unigol o'r staff. | Newydd |
| 29 | Nid yw'r unigolyn cofrestredig wedi cynnal arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff sy'n gweithio yn y lleoliad. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/01/2023